
# Mae'n amser Etholiad!

Fy Llais i, Fy Nghymru




Senedd Cymru
Welsh Parliament

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.



Senedd Cymru
Welsh Parliament



Senedd Cymru
Welsh Parliament






Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Mae'r Senedd yn gyfrifol am sawl pwnc sy'n effeithio ein bywyd pob dydd.

- Iechyd
- Addysg
- Chwaraeon
- Amaethyddiaeth
- Bwyd
- Gwasanaethau Tân a Drosglwyddo
- Yr Amgylchedd
- Tai



# Aelodau o’r Senedd

Mae Aelodau o'r Senedd yn cael eu hethol i'n cynrychioli wrth drafod a phasio deddfau ar y pynciau datganoledig hyn yng Nghymru.

Pe baech chi'n Aelod o'r Senedd am ddiwrnod, pa gyfraith newydd fyddech chi'n ei gwneud?




Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Pleidiau Gwleidyddol

Ar hyn o bryd, mae pump plaid gwleidyddol yn y Senedd.

Welsh Conservatives | Ceidwadwyr Cymreig

Welsh Labour Llafur Cymru

Welsh Liberal Democrats
Democratiai Rhyddfrydol Cymru

Plaid Cymru
Party of Wales

REFORM UK

# Maniffesto

Rhestr o addewidion

Yn amlinellu beth mae'r blaid yn sefyll amdano a sut maen nhw'n bwriadu effeithio ar newid.

Bydd pob plaid yn cyhoeddi ei maniffesto yn y cyfnod cyn etholiad.





# Etholiad Senedd ein Dosbarth

- Gan weithio mewn grwpiau byddwch yn creu eich plaid wleidyddol eich hun.
- Trafodwch syniadau i ddatblygu addysg, iechyd, amgylchedd a'n cymunedau yng Nghymru.
- Ysgrifennwch faniffesto.
- Rhestr o syniadau  yr ydych am eu cyflwyno i wella'r wlad yw maniffesto.
- Gallai gynnwys syniadau fel gwario arian ar ysbytai, gwella ysgolion neu gyfreithiau i amddiffyn ein hamgylchedd.
- Cyflwynwch eich syniadau i'r dosbarth.
- Gwrandewch ar syniadau'r pleidiau eraill yn y dosbarth.
- Pleidleisiwch!



Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Dewiswch Lywydd ar gyfer eich grŵp

Yn union fel y Llywydd yn y Senedd, dylai eich grŵp ddewis un person i wneud yn siŵr, fel grŵp:

- bod pawb yn cael cyfle i roi eu barn mewn trafodaeth.
- eich bod yn pleidleisio i ddewis y syniadau gorau.
- bod pob tasg yn cael ei chwblhau ar amser.




Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Ysgrifennwch eich maniffesto eich hun

- Rhaid i'ch maniffesto gynnwys syniadau i ddatblygu addysg, iechyd, yr amgylchedd ac cymunedau yng Nghymru.
- Defnyddiwch y cardiau pwnc i helpu gyda syniadau.
- Gwnewch yn siŵr fod pawb yn cael cyfle i feddwl am syniadau.
- Fel plaid, bydd angen i chi bleidleisio i ddewis pa syniadau fydd yn cael eu defnyddio yn eich maniffesto.
- Dylid sicrhau eich bod yn rhoi rhesymau dros ddewis eich syniadau a sut bydd yn gweithio.



# Eich Ymgyrch

Unwaith y byddwch wedi cytuno ar eich maniffesto, dylech weithio ar eich ymgyrch etholiadol i berswadio pobl i bleidleisio drosoch.

1. Penderfynwch ar enw i'ch plaid, meddyliwch am ddefnyddio cyflythrennu neu eiriau sy'n odli er mwyn gwneud yn siŵr bod yr enw'n gofiadwy.

2. Crëwch boster lliwgar yn dangos eich syniadau ar gyfer eich maniffesto.

3. Ysgrifennwch araith sy'n esbonio pob un o syniadau eich maniffesto. Rhannwch yr araith rhwng aelodau eich plaid a gwnewch yn siŵr eich bod yn ymarfer cyn yr etholiad

4. Lliwiwch y rhosglwm ar gyfer eich plaid.



# Yr etholiad!


- Bydd pob plaid yn cael cyfle i gyflwyno eu syniadau i'r dosbarth.
- Gwrandewch yn ofalus ar syniadau pob plaid cyn penderfynu pwy sy'n cael eich pleidlais.
- Ydych chi'n cytuno â'u syniadau?
- A yw eu syniadau yn realistig?
- A yw eu cyflwyniad wedi'i drefnu'n dda a'i gyflwyno'n hyderus?



Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Pleidleisiwch

- Bydd gan bawb y cyfle i bleidleisio
- Mae pawb yn cael papur pleidleisio sy'n rhestru enw pob plaid.
- I bleidleisio rhowch **x** yn y blwch gwag wrth ymyl enw'r blaid yr ydych yn dymuno pleidleisio drosti.
- Mae'n bleidlais gudd, felly nid oes angen i chi ysgrifennu eich enw ar y papur na dweud wrth unrhyw un pa blaid rydych wedi dewis pleidleisio drosti.
- Plygwch eich papur yn ei hanner a'i roi yn y blwch pleidleisio
- Bydd y blaid gyda'r nifer fwyaf o bleidleisiau yn ennill yr etholiad.




Senedd Cymru
Welsh Parliament